



CYFLWR COEDWIGOEDD A CHOED Y DU

Coed a choedwigoedd mewn byd sy'n
newid – crynodeb i Gymru



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Adroddiad cryno

Mehefin 2025

Cynnwys

	Rhagarweiniad a chyd-destun	3
1.	Rhychwant a chyflwr	6
2.	Pobl a bywyd gwyllt	11
3.	Byggythiadau i goetiroedd brodorol yng Nghymru	13
4.	Beth sy'n digwydd?	19
5.	Gofynion polisi	24
6.	Beth mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn ei wneud?	28

**Gwnaed yr adroddiad hwn yn
bosibl diolch i gyllid a godwyd gan
chwaraewyLoteri Cod Post y Bobl.**



The Woodland Trust, Kempton Way, Grantham,
Lincolnshire NG31 6LL.

woodlandtrust.org.uk

Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn elusen gofrestredig yng
Nghymru a Lloegr rhif 294344 ac yn yr Alban rhif SC038885.
Cwmni di-elw cyfyngedig trwy warant. Wedi'i gofrestru yn Lloegr
rhif 1982873. Mae logo Coed Cadw (The Woodland Trust) yn nod
masnach cofrestredig. Clawr: WTML. CP01899 06/25

Rhagarweiniad a chyd-destun

Mae cyhoeddi *Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025* gan Coed Cadw (The Woodland Trust) yn cyd-daro â 10fed pen-blwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yma yng Nghymru. Gan gymryd ysbrydoliaeth o ddoethineb cynhenid ac Egwyddor y Seithfed Genhedlaeth, mae'r fframwaith deddfwriaethol hwn yn ceisio ymgorffori meddwl hirdymor ac ataliol fel y lens y dylid edrych ar bob penderfyniad drwyddi.

Mae'r Ddeddf yn darparu saith nod lles i gyfeirio camau gweithredu tuag atynt ac y mesurir cynnydd ohonynt. Ymhlith y nodau hyn mae 'Gymru gydnherth' yn llunio gweledigaeth o Gymru fel cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithredu ac sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. Mae'r nod hwn yn ei gwneud yn glir i bob gwneuthurwr penderfyniadau nad yw gwydnwch economaidd, cymdeithasol ac ecolegol yn ffactorau annibynnol y gellir eu hystyried ar wahân.

Mae'r cydgysylltedd hwn rhwng gwydnwch planedol a chymdeithasol-economaidd yn thema sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg yng ngwaith Coed Cadw (The Woodland Trust) ledled Cymru. Ar draws Cymru, mae cymunedau'n teimlo effeithiau hinsawdd sy'n newid a digwyddiadau tywydd eithafol.

Mae coedwigoedd a choed yn rhan annatod a chost-effeithiol o'r ateb. Maen nhw'n darparu cynefin hanfodol i gynnal amgylchedd naturiol bioamrywiol ac yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol, gan leihau llifogydd, amddiffyn priddoedd a dal carbon. Maen nhw'n darparu cysgod a lloches i bobl a da byw, ac yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o liniaru gwres eithafol. Wrth gwrs, mae coed a choedwigoedd yn llawer mwy na dim ond budd i'w fesur; mae eu gwerth diwylliannol, ysbrydol, esthetig yn cysylltu'n ddwfn â phobl a chymunedau o bwl y galon. Gallant fod yn fawreddog ac yn ysbrydoledig, yn ddoniol ac yn ddiogel, yn dirnod cyfeillgar, yn angorau gobaith o fewn byd sy'n newid yn barhaus. Mae coed a choedwigoedd yn gydrannau cynhenid o'r math o fyd y dylid ei adael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at faint mwy o waith sydd angen ei wneud i sicrhau hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data newydd sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen *Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025* a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n dangos y manteision sylweddol y mae coed a choedwigoedd yn eu dwyn i ganlyniadau amgylcheddol ac iechyd dynol gwell, ac yn crynhoi data diweddar ar faint, cyflwr a gwerth coedwigoedd yng Nghymru. Ei bwrpas yw ysgogi newid cadarnhaol i goedwigoedd a choed brodorol Cymru drwy nodi bygythiadau allweddol a nodi'n glir beth sydd angen digwydd i wella eu cyflwr a sicrhau eu dyfodol. Gobeithir y gall yr adroddiad ddangos faint o frys sydd yna i weithredu i warchod a gwella'r adnodd naturiol helaeth hwn, a sbarduno meddwl ar draws seilos polisi i ddatblygu dealltwriaeth o goed a choedwigoedd fel seilwaith hanfodol ar gyfer y dyfodol a chydrannau pwysig o wasanaethau cyhoeddus hanfodol ar gyfer cenedlaethau i ddod.



Canlyniadau Allweddol

Rhychwant a chyflwr

Nid yw'r rhan fwyaf o goetiroedd yng Nghymru mewn cyflwr da, er bod maint coetiroedd wedi dangos cynnydd cymhedrol ers yr adroddiad diwethaf ar Gyflwr Coedwigoedd a Choed.

Mae Cymru yn cynnwys miloedd o goed hynafol a hen a chyfran sylweddol o goedwig law dymherus y DU, ond mae angen amddiffyn a rheoli'r cynefinoedd hyn yn well. Mae gan Gymru hefyd orchudd canopi coed trefol cymharol uchel o'i gymharu â gweddill y DU, er nad yw hyn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal.

Pobl a bywyd gwylt

Mae bioamrywiaeth coetiroedd ledled y DU yn parhau i ddirywio, ac mae angen rheoli coetiroedd er budd bioamrywiaeth coetiroedd. Mae natur yn fuddiol i les meddylol a chorfforol pobl, ac mae pobl yng Nghymru yn gwerthfawrogi mynediad at natur. Fodd bynnag, fel gyda gorchudd canopi coed trefol, nid yw mynediad at fioamrywiaeth coetiroedd buddiol wedi'i ddosbarthu'n gyfartal.

Bygythiadau

Mae coetiroedd yng Nghymru yn parhau i wynebu bygythiadau gan gynnwys plâu a phathogenau a gyflwynwyd, llygredd, tywydd eithafol ac effeithiau llysysyddion gan geirw a gwiwerod llwyd. Mae gan y bygythiadau hyn i gyd y potensial i fygwth amcanion cadwraeth, ond mae diffyg cyllid ar gyfer rheoli coetiroedd a bwlch sgiliau yn y sector cadwraeth yn cyfyngu ar y camau gweithredu sydd eu hangen.

Beth sy'n digwydd?

Nid yw cyfraddau plannu presennol ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau a osodwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac mae angen eu cynyddu.

Mae amaeth-goedwigaeth, rheoli coetiroedd, adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol a chynlluniau rheoli llifogydd naturiol yn cynnig cyfleoedd i gyrraedd targedau adfer natur, addasu i argyfwng hinsawdd a gorchudd coed, gan fod o fudd i bobl a chymunedau ar yr un pryd.



Gofynion polisi

Er mwyn **gwella a gwarchod coedwigoedd a choed presennol**, dylai'r llywodraeth:

1. Canolbwyntio ar ddatblygu economi coetiroedd a fydd yn gwella cyflwr coetiroedd ym mhob rhan o Gymru.
2. Cryfhau amddiffyniad cyfreithiol i goed hynafol a phwysig Cymru.
3. Monitro a rheoleiddio llygredd yn effeithiol er mwyn gorfodi safonau rheoleiddio.

Er mwyn **ehangu a chysylltu coetir a gorchudd coed**, dylai'r llywodraeth:

1. Cyflymu creu coetiroedd newydd i fwy na 10,500ha y flwyddyn erbyn 2035.
2. Cynnal gwyliadwriaeth a rheolaeth ar blâu a phathogenau coed, a pharatoi'r ffordd ar gyfer hunangynhaliaeth o ran cyflenwad coed.

Er mwyn **gwella'r dystiolaeth**, dylai'r llywodraeth:

1. Monitro a rheoli effaith ceirw ar goetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
2. Cefnogi ymchwil sy'n anelu at benderfynu ar effaith gwiwerod llwyd ar fioamrywiaeth ehangach yng Nghymru.
3. Cefnogi ymchwil sy'n anelu at benderfynu effeithiau tywydd eithafol ar goedwigoedd a choed Cymru.

Er mwyn **buddsoddi yn y dyfodol**, dylai'r llywodraeth:

1. Ymarfer integreiddio a chydweithio clir ac effeithiol ar lefel strategol wrth ddatblygu strategaethau seilwaith gwyrdd, lles ac economaidd i sicrhau bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu normaleiddio ar draws meysydd polisi.

1. Rhychwant a chyflwr



Rhychwant

Mae coed a choetiroedd yn rhannau amrywiol a gwerthfawr o dirwedd Cymru. Maen nhw'n gynefinoedd hanfodol i nifer fawr o rywogaethau ac yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem sy'n hanfodol i swyddogaeth y dirwedd, iechyd a lles pobl, a'r economi.

Mae cynyddu gorchudd coetiroedd yn ychwanegu at eu gwydnwch drwy ddarparu mwy o glustogi, mwy o barthau a choridoriau pontio ac ardaloedd mwy i rywogaethau ffynnu ynddynt. Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yn adolygiad Lawton a fframwaith DECCA CNC, sydd ill dau yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng cysylltedd a maint a gwydnwch ecosystemau.

Mae cynyddu gorchudd coetir yn gofyn am ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u cyflwr ar hyn o bryd. Adroddodd *Cyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2021* (SoWT 2021) ar ffigurau maint coetir ar y pryd, a ddangosodd fod coetir yn gorchuddio 13.2% (3.2 miliwn ha) o arwynebedd tir y DU. Rhannwyd hyn fwy neu lai'n gyfartal rhwng rhywogaethau brodorol ac estron, gyda choetir hynafol yn ffurfio

2.5% o arwynebedd tir y DU. Isod darperir diweddariad ar y ffigurau hyn sy'n berthnasol i Gymru gan ddefnyddio data o'r Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (NFI):

- Bu cynnydd bach mewn gorchudd canopi yn y DU ers SoWT 2021, gyda choetir bellach yn gorchuddio 13.5% o arwynebedd tir y wlad. Mae arwynebedd coetir yng Nghymru hefyd wedi dangos cynnydd cymhedrol yn ystod y cyfnod hwn, gan orchuddio 15% o arwynebedd tir y wlad bellach (o'i gymharu â 14.9% yn 2020). Amcangyfrifwyd bod cyfanswm arwynebedd coetir yn y DU yn 2024 yn 3.28 miliwn hectar. O'r cyfanswm hwn, mae tua 0.31 miliwn hectar (9.5%) yng Nghymru.
- Mae gorchudd coetir yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU ond mae'n cymharu'n anffafriol â chyfartaledd Ewropeaidd o 39%. Mae cyfraddau plannu cyfredol hefyd yn parhau'n brin i fodloni'r gofynion sero net a osodwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd.
- Mae cyfanswm o 609,990ha o goetir hynafol yn y DU, sy'n gorchuddio 2.5% o arwynebedd tir y DU. Mae 94,940ha yng Nghymru, sy'n gorchuddio 4.6% o arwynebedd tir y wlad, ac o hyn mae 25,710ha yn blanhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol (PAWS), sy'n gorchuddio 1.24% o'r wlad.

Cyflwr

Mae cael coetiroedd mewn cyflwr da yn hanfodol gan eu bod yn darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a gweithrediad ecolegol. Mae coetiroedd mewn cyflwr da yn fwy tebygol o allu darparu'r gwasanaethau hyn, a bod yn wydn a gallu addasu i newidiadau hinsawdd yn y dyfodol.

Dangosodd SoWT 2021 mai dim ond 7% o goetiroedd brodorol Prydain sydd mewn cyflwr ecolegol da. Yng Nghymru, nid yw'r ffigur yn llawer gwell, gyda 9% o arwynebedd coetiroedd brodorol yng Nghymru mewn cyflwr ecolegol ffafriol. Mae 91% o goetiroedd brodorol yng Nghymru wedi'i gategoreiddio fel rhai mewn cyflwr canolraddol, gyda dim ond 0.1% o goetiroedd brodorol yng Nghymru mewn cyflwr anffafriol.

Er bod y term hwn 'canolradd' yn cynnig trosolwg cyffredinol o gyflwr ecolegol, er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o gyflwr ecolegol gwirioneddol coetiroedd Cymru mae angen dadgyfuno ymhellach.

- Mae 98% o arwynebedd coetir brodorol yng Nghymru mewn cyflwr anffafriol o ran presenoldeb coed hynafol, mae 84% mewn cyflwr anffafriol o ran cyfran y lle agored, mae 82% mewn cyflwr anffafriol o ran cyfaint y coed marw sydd ynddo ac mae gan 44% o arwynebedd coetir brodorol rai arwyddion o ddifrod pori gan lysysyddion.
- Mae 25% o goedwigoedd brodorol yn llai na 5ha, tra bod 49% i'w cael mewn coedwigoedd sy'n llai na neu'n hafal i 20ha o ran maint.
- Mae gan 7% o arwynebedd coetir brodorol yng Nghymru lefelau anffafriol o rywogaethau ymledol, ond maent yn cael effaith fawr ar gyflwr ecolegol lle maent yn bresennol. Dim ond 5% o arwynebedd coetir brodorol yng Nghymru sydd mewn cyflwr ffafriol ar gyfer ei fflora daear.
- Mae rhai priodoleddau coetir yn dangos arwyddion mwy cadarnhaol serch hynny. Er enghraifft, mae 86% o arwynebedd coetir brodorol mewn cyflwr ffafriol ar gyfer 'brodoriaeth' y canopi, tra bod 55% o arwynebedd coetir brodorol yng Nghymru mewn cyflwr ffafriol ar gyfer strwythur canopi fertigol.

- Er bod rheoli coetiroedd unigol yn cael ei wneud ar raddfa coetir sengl yn dilyn asesiad o fygythiadau a chyflwr, bydd deall y priodoleddau hyn yn rhoi'r cyfle gorau i gyflawni adferiad coetiroedd ar raddfa fawr ar raddfa tirwedd.

Coed hynafol a hen

Mae gan goed hynafol a hen allu rhyfeddol i wneud argraff ar galonnau a meddyliau. Maen nhw'n werthfawr fel ceidwaid treftadaeth ddiwylliannol ac mae eu pwysigrwydd yn anghymesur ar gyfer bioamrywiaeth o'u cymharu â choed iau, gan gynnig cilfachau ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau nad ydynt i'w cael yn unman arall. Mae coed hynaf a mwyaf arbennig y DU yn cynnwys casgliadau rhyngwladol enwog o goed hynafol a hen goed eraill, yn ogystal â choed a elwir yn goed treftadaeth.

- Mae'r Rhestr Coed Hynafol (ATI), a gedwir a'i rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Goedlannau ac sydd ar gael yn agored, yn set ddata o gofnodion o goed hynafol, hen a choed nodedig eraill yn y DU. Ym mis Awst 2024, roedd 233,201 o gofnodion ATI o goed hynafol, hen a nodedig wedi'u gwirio yn y DU, gyda 5.4% (neu 12,540) i'w cael yng Nghymru, er ei bod hi'n bwysig nodi nad yw'r ATI yn set ddata gyflawn.
- Yn Lloegr a'r Alban, mae technegau samplu strata wedi'u datblygu i nodi safleoedd blaenoriaeth uchel ar gyfer cofnodi coed hynafol a hen goed. Gall techneg samplu safonol fel hon helpu i roi gwybodaeth am leoliadau ar lawr gwlad y gwyddom eu bod o bwys arbennig, fel Dyffryn Elan, a mynd rhywfaint o'r ffordd i'n helpu i amcangyfrif faint o goed sydd yn bresennol yn y dirwedd nad ydynt wedi'u cofnodi ar hyn o bryd, ond y gellid eu cofnodi.
- Gall ffigurau Cymru fod yn is na darlun y DU hefyd, oherwydd natur tirwedd ucheldir Cymru. Mewn rhanbarthau ucheldir, lle gall coed wynebu amodau anodd a phriddoedd gwael, gallant fod yn llai o ran maint ac mae nodweddion amlygiad i'r gwynt yn gyffredin. Gall y coed cnotiog hyn, sydd y tu hwnt i ganfyddiadau cyffredin o sut olwg sydd ar goeden hynafol, fynd heb eu cydnabod ac felly gael eu tanbrisio a'u tan-gofnodi.

Coedwig law dymherus

Mae coedwigoedd glaw tymherus yn gynefinoedd prin yn fyd-eang sy'n digwydd mewn rhanbarthau ar draws y parth tymherus lle mae lefelau uchel o lawiad a chefnforedd. Mae lleithder uchel ac amrywiadau tymheredd isel yn creu amodau sy'n addas ar gyfer twf planhigion a ffyngau arbenigol, bryoffytau, rhedyn a chen. Fe'u nodweddir gan haen o epiffytau sy'n tyfu ar ac o fewn canopiau coed, ac maen nhw'n goetiroedd unigryw ac arwyddocaol yn ddiwylliannol. Mae llawer o Gymru yn darparu amodau addas ar gyfer coedwigoedd glaw tymherus.

- Mae tirwedd coedwig law Cymru – lle bynnag y mae hinsawdd coedwig law gefnforol yn croesdorri â gorchudd coed – yn cwmpasu ardal o 768,000 hectar (ha), sy'n cynnwys 116,042ha o goetir canopi caeedig a choedwigaeth. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys 61,426ha o goetir llydanddail (53%) a 54,616ha o blanhigfa conwydd (47%), er ei bod hi'n bwysig nodi, er y gall planhigfa conwydd ddod o fewn tirwedd coedwig law ac felly fod yn gymwys yn hinsoddol fel coedwig law, mae'n annhebygol y bydd y coetiroedd hyn yn gyfoethog o ran natur ac yn cynnal y fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â chynefin coedwig law dymherus brodorol mewn cyflwr da oherwydd diffyg rhywogaethau ac amrywiaeth strwythurol, cyfran isel o goed llydanddail

brodorol a chysgod trwchus.

- Mae asesiad o gynefinoedd coedwigoedd glaw mewn tair rhanbarth o Gymru yn dangos mai dim ond 22% o'r safleoedd a arolygwyd sydd mewn cyflwr 'da' a 25% mewn cyflwr 'gwael'. Nid oedd unrhyw safleoedd a arolygwyd mewn cyflwr 'da iawn'. Yn benodol, mae gan 62% o'r safleoedd a arolygwyd yng Nghymru lefelau pori amhriodol, ac mae 63% ohonynt yn cael eu tan-bori. Roedd rhywogaethau ymledol problemus gan gynnwys *Rhododendron ponticum*, yn ogystal â rhywogaethau brodorol ymledol fel eiddew a chelynenn, yn bresennol mewn bron i 70% o'r safleoedd a arolygwyd.
- Hyd yn oed mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAu) gwarchodedig, nid yw'r rhan fwyaf o safleoedd coedwigoedd glaw tymherus mewn cyflwr ffafriol, tra bod y rhan fwyaf o rywogaethau a nodweddion cynefinoedd mewn Safleoedd coedwigoedd glaw o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) wedi'u dosbarthu fel rhai mewn cyflwr anffafriol neu anhysbys.
- Ar hyn o bryd dim ond 12% o coedwigoedd glaw Cymru sydd â gwarchodaeth gyfreithiol drwy'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig fel SoDdGA neu ACA, ond mae nifer o brosiectau ar raddfa tirwedd yn digwydd ledled Cymru i ddechrau adfer y coedwigoedd glaw fel Prosiect LIFE Coedwig Law Geltaidd Cymru a Phartneriaeth Coedwig Law Eryri.

Gorchudd coed trefol

Mae'r 'goedwig drefol' yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol fel cysgodi ac oeri, cefnogi lles corfforol a meddyliol, a rheoli dŵr storm. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac effeithio ar iechyd y cyhoedd. Y goedwig drefol yw prif gyswllt y rhan fwyaf o bobl â choed a choedwigoedd, ond er gwaethaf pwysigrwydd hanfodol y goedwig drefol, mae gwybodaeth am lefelau gorchudd canopi coed trefol (UTCC) ledled y DU yn gymharol brin.

- Mae amrywiad sylweddol yn yr UTCC yn bodoli ar bob lefel weinyddol yn y DU, ond mae ffigurau UTCC ar gyfer dinasoedd y DU ymhell islaw'r cyfartaledd Ewropeaidd.
- Roedd cyfartaledd yr UTCC ledled y DU yn 19.3% gyda ffigur o 22.2% i Gymru, yr uchaf ar draws y pedair gwlad. Mae gan Dde Cymru UTCC cymharol uchel sef 23.2%, gyda Chaerdydd â'r UTCC uchaf o'r holl ddinasoedd a aseswyd, er bod Gogledd Cymru yn dangos UTCC is sef 17.1%. Ar lefel ward etholiadol unigol a lefel cymdogaeth, Cymru hefyd sydd â'r UTCC uchaf ar draws y pedair gwlad.
- Fel mae'r data uchod yn ei amlygu, nid yw coedwigoedd a choed trefol wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) wedi datblygu'r [Sgôr Ecwiti Coed](#) a'r offeryn i amlygu'r anghydraddoldeb hwn, a helpu cynllunwyr lleol a chymunedau i fynd i'r afael ag ef. Mae dros 1,000 o gymdogaethau yng Nghymru wedi derbyn Sgôr Ecwiti Coed, sy'n amrywio o 0 i 100. Mae'r cymdogaethau hyn yn gartref i tua 65% o boblogaeth Cymru, ac mae gan dros 80% o'r cymdogaethau hyn orchudd coed annigonol. Po isaf yw'r sgôr, y mwyaf yw'r flaenoriaeth i blannu coed. Mae sgôr o 100 yn golygu bod gan y gymdogaeth ddigon o goed. Gan ddefnyddio'r Sgôr Ecwiti Coed a'r offeryn, gellir targedu ehangu mewn ardaloedd sydd ei angen fwyaf a lle bydd y budd mwyaf.



2. Pobl a bywyd gwyllt

Mynediad a lles

Mae consensws y gall treulio amser mewn natur leihau'r risg a'r baich o iechyd gwael, a chodi lles pobl, gan arwain at arbedion sylweddol i'r system iechyd. Felly, mae mannau naturiol sydd ar gael i'r cyhoedd yn seilwaith hanfodol ar gyfer cefnogi iechyd a lles y boblogaeth.

- Mae coetiroedd ymhlith y tri math o ofod naturiol sy'n cael eu hymweld â nhw fwyaf yng Nghymru, ac maen nhw'n fath pwysig o gynefin o ran darparu manteision lles.
- Mae nifer y bobl sy'n ymweld â choetiroedd yn y DU yn rheolaidd yn cael ei olrhain dros amser gan ddau arolwg: yr Arolwg Barn Gyhoeddus ar Goedwigaeth, ac Arolygon Pobl a Natur Cymru, sydd ill dau yn gyffredinol yn adlewyrchu perthynas gref â choetiroedd yng Nghymru.
- Mae mannau gwyrdd hefyd yn darparu manteision ariannol sylweddol. Amcangyfrifwyd bod y manteision iechyd meddwl blynyddol sy'n gysylltiedig ag ymweliadau â choetiroedd y DU yn £185 miliwn y flwyddyn (ar brisiau 2020). Yng Nghymru mae'r gwerth hwn yn £13 miliwn. Amcangyfrifwyd bod y gwerth blynyddol o fanteision iechyd cyffredinol o hamdden mewn coetiroedd yn £1.149 biliwn yn 2022, tra yng Nghymru mae'r gwerth hwn yn £99 miliwn.
- Holwyd dros 5,000 o bobl yn cynrychioli trawsdoriad amrywiol o'r cyhoedd o bob cwr o'r DU ar-lein i fesur ymatebion lles pobl i fioamrywiaeth. Ar y cyfan, nododd pobl eu bod wedi profi lles cadarnhaol mewn ymateb i fioamrywiaeth o fewn coetir lleol iddynt, gyda sgôr o 61.7 allan o 100 (lle mae gwerthoedd uwchlaw 50 yn cynrychioli lles cadarnhaol mewn ymateb i fioamrywiaeth).
- Gan ddefnyddio'r data hwn, mae Prifysgol Caint wedi mapio'r dosbarthiad modelu cronol o rywogaethau coetir y gwyddom eu bod yn meddu ar nodweddion effaith lles. Mae'r mapiau'n dangos cyfoeth y nodweddion effaith lles hyn ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar draws y pedair gwlad, mae cysylltiad negyddol rhwng cyfoeth y nodweddion effaith a lefel amddifadedd y gymdogaeth lle mae'r coetir wedi'i leoli.

Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn haeddu cael ei diogelu ynddi ei hun ac yn hanfodol ar gyfer cydnherthedd coetiroedd mewn byd sy'n newid, ond mae canlyniadau arolwg Bunce a data dangosyddion ar gyfer ystod eang o rywogaethau coetiroedd yn datgelu bod bioamrywiaeth coetiroedd yn parhau i ddirywio.

- Ar lefel y DU, mae llawer o'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â choetiroedd sy'n profi dirywiad parhaus yn rhai sydd angen mannau agored a strwythur llystyfiant amrywiol o fewn coetiroedd i ffynnu, ac mae'r duedd hon yn gyson â'r duedd gyffredinol o gau canopi a ddisgrifir yn adroddiad Bunce. Mae gyrwyr ychwanegol sy'n effeithio ar gyfansoddiad fflora coetiroedd yn cynnwys ewtroffigedd, clefydau coed a cheirw yn pori, tra bod hinsawdd sy'n cynhesu hefyd yn ffafrio rhai rhywogaethau.
- Cynyddodd adar coetir yng Nghymru 33% rhwng 1995 a 2020, er y gallai cyfran y rhywogaethau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y mynegai fod yn

sbarduno'r cynnydd cyffredinol hwn. Mae gwahaniaethau yn y rhywogaethau sydd ar gael i'w dewis fel dangosyddion rhwng Cymru a'r DU ehangach wedi arwain at wahaniaethau yng nghyfeiriad y duedd, gyda phoblogaethau adar coetir ar lefel y DU yn gostwng 37% rhwng 1970 a 2022 ac yn parhau i ostwng ers 1995.

- Yng Nghymru, cynyddodd mynegai helaethrwydd sy'n cynnwys chwe rhywogaeth o ystlumod hefyd 76% rhwng 1998 a 2021. Er bod gyrwyr dynameg poblogaeth mewn gwahanol dacsau yn gymhleth ac yn ddeinamig, mae cynnydd mewn coedwigoedd uchel, ymhlith pethau eraill, yn debygol o fod wedi chwarae rhan bwysig wrth adfer poblogaethau ystlumod.

Carbon

Mae coedwigoedd a choed yn chwarae rhan yn y cylch carbon a strategaeth lliniaru newid hinsawdd a sero net y DU. Mae coetiroedd presennol yn storio carbon mewn biomas coed ac mewn priddoedd coedwigoedd. Mae angen blaenoriaethu amddiffyn a chryfhau sefydlogrwydd y stociau carbon hyn gan y gall cyflwr sy'n dirywio, plâu a chlefydau ac effeithiau newid hinsawdd arwain at golledion sylweddol o garbon.

- Mae cyfanswm stoc carbon coedwigoedd y DU tua biliwn tonnell o garbon (1095 miliwn tonnell carbon [Mt C]), tra bod cyfanswm stoc carbon coedwigoedd mewn coedwigoedd yng Nghymru yn 0.09 biliwn tonnell (92 Mt C). Modelodd dadansoddiad gan Forest Research, gan ddefnyddio'r Rhestr Goedwigoedd Genedlaethol (NFI), bod y stoc carbon coed byw o fewn coetiroedd hynafol a hirsefydlog yn debygol o ddyblu dros y 100 mlynedd nesaf. Mae storio coetiroedd hynafol yn amrywio yn ôl gwlad, gyda Chymru yn cynnwys y cyfanswm stoc carbon isaf mewn coed byw mewn coetiroedd hynafol a hirsefydlog o'i gymharu â Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, mae asesiadau LiDAR diweddar o goed brodorol yn awgrymu y gallai methodolegau traddodiadol fod yn tanamcangyfrif stoc carbon y biomas uwchben y ddaear o goetir llydanddail brodorol lled-naturiol o bron i 80%.
- Mae amseriad creu coetiroedd yn bwysig, oherwydd y cyfraddau cychwynnol araf o ddal carbon wrth i goed dyfu. Ar lefel y DU, amcangyfrifir y byddai targedau creu a fethwyd rhwng 2020-2021 a 2023-2024 wedi cael gwared ar 8.5 miliwn tonnell o garbon deuocsid (Mt CO₂e) erbyn 2050.
- Mae cyfraddau plannu presennol ymhell o fod ar y trywydd iawn o ran cyrraedd y targedau creu coetiroedd gofynnol i gyflawni llwybr sero net y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) yng Nghymru ac ar lefel y DU, ac mae angen dadansoddiad pellach i ganiatáu gwell dealltwriaeth o rôl coedwigoedd a choed presennol mewn atafaelu a storio carbon yng Nghymru. Mae cyngor 7fed Cyllideb Carbon y CCC yn cynnwys argymhellion ar gyfer plannu coetiroedd amrywiol newydd i gynyddu arwynebedd gorchudd coetir y DU o 13% i 16% erbyn 2040 ac 19% erbyn 2050. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyfraddau plannu coed fwy na dyblu i 37,000ha y flwyddyn erbyn 2030.

3. Bygythiadau i goetiroedd brodorol yng Nghymru

Plâu a phathogenau a gyflwynwyd

Mae gan blâu a phathogenau a gyflwynwyd ('plâu') y gallu i achosi effeithiau eang ar goed, a cholledion coed, fel y gwelwyd gyda chlefyd llwyfen yr Iseldiroedd a chlefyd coed ynn, ac adroddodd SoWT 2021 am gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gyflwyno plâu difrifol ers 1990.

- Mae dadansoddiad yng Nghyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025 wedi pennu bod y DU ar hyn o bryd yn gartref i 121 o blâu o'n rhywogaethau coed brodorol sydd naill ai wedi'u cyflwyno neu sydd â tharddiad ansicr. Ers SoWT 2021, mae un pla difrifol newydd *Phytophthora pluvialis*, a ddarganfuwyd gyntaf yng Nghernyw yn 2021, wedi'i ddarganfod mewn sawl safle yng Nghymru.
- Ystyrir bod masnach ryngwladol planhigion byw a chynhyrchion planhigion yn ffactor allweddol sy'n ysgogi cyflwyno plâu a phathogenau, yn enwedig ochr yn ochr â newid hinsawdd a ragwelir y bydd yn cynorthwyo plâu i gyrraedd a/neu ymsefydlu yn y dyfodol. Mae digwyddiadau hinsawdd a all achosi mwy o straen mewn coed hefyd yn debygol o wneud y cynhaliwr wneud y i blâu.
- Cyhoeddir Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol yng Nghymru (SPHNau) gan Asiantaethau Iechyd Planhigion Statudol er mwyn rheoli achosion o bathogenau planhigion peryglus. Cymru sydd â'r ganran fwyaf o arwynebedd coedwig gyda Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol wedi'u cyflwyno dros y pedair blynedd diwethaf sef 1.53% o arwynebedd coedwig, sy'n fwy na dwbl yr arwynebedd tir ar gyfer plannu coed sef 0.08%. Yn aml, mae SPHNau yn rhagnodi llwyrdorri fel y driniaeth briodol ar gyfer *Phytophthora ramorum*, a all fygwth amcanion cadwraeth yn sylweddol.



- Mae parhau i drin plâu sydd wedi ymsefydlu yn gostus iawn, gydag amcangyfrif fo cost flynyddol rheoli dim ond chwe phlâ ledled y DU yn tua £920 miliwn. Yng Nghymru, mae cost rheoli'r pedwar o'r plâu hyn sy'n bresennol yn dod i £130 miliwn.

Ceirw

Ar ddwyseddau is gall ceirw gyflawni swyddogaethau ecolegol pwysig, fodd bynnag mae lefelau poblogaeth ceirw anghynaliadwy yn atal adfywio coed ac felly'n bygwth dyfodol coetiroedd. Gall dwyseddau ceirw uchel hefyd effeithio'n negyddol ar strwythur coetiroedd a chyfoeth rhywogaethau fflora daear a nifer yr adar, mamaliaid bach ac infertebratau. Ar draws y DU, mae poblogaethau ceirw yn cynyddu, gyda llawer o goetiroedd bellach yn cynnal lefelau poblogaeth anghynaliadwy.

- Mae pum rhywogaeth o geirw yn bresennol yn y gwyllt yng Nghymru, (dwyrwogaeth frodorol, un rhywogaeth sydd wedi'i naturoli, a dwyrwogaeth ymledol), ac er bod effeithiau ceirw yng Nghymru yn cael eu cydnabod fel rhai anghyson yn eu dosbarthiad ac nid yn unffurf ledled y wlad, nid oes gan Gymru ddata sylfaenol cywir a chynrychioliadol ar ddosbarthiad a chyfansoddiad gwirioneddol rhywogaethau poblogaeth y ceirw ar hyn o bryd. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn llywio rheolaeth briodol ac addasol o goetiroedd Cymru ar raddfa tirwedd. Byddai astudiaeth bellach yng Nghymru, gan archwilio'n benodol allu coetiroedd Cymru i gynnal ceirw, yn fuddiol.
- Er nad oes setiau data ledled y DU ar ddeinameg poblogaethau ceirw yn bodoli, mae niferoedd uchel o geirw yn cael eu cofnodi mewn rhai lleoliadau ar safleoedd Coed Cadw (The Woodland Trust), a sgoriau effaith uchel yn



NICK REED-BEALE

gyffredinol ar lystyfiant coetir. Heb fuddsoddiad ac ymyrraeth sylweddol ar draws y sector, mae, a bydd, strwythur ac ecoleg coetiroedd yn cael eu heffeithio'n andwyol.

- Gan fod ceirw yn ddeinamig ac yn symud ledled y dirwedd, mae angen rheolaeth gydlynol ar raddfa uwchlaw'r un goetir bellach. Mae partneriaethau'n bodoli sy'n anelu at amlygu pwysigrwydd rheoli ceirw ar lefel tirwedd, fel y Fenter Ceirw, sy'n anelu at gyflawni a chynnal poblogaeth gynaliadwy ac iach o geirw gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Yn y pen draw, bydd llwyddiant yr ymdrech hon yn dibynnu ar gynyddu a blaenoriaethu rheolaeth ceirw ar raddfa dirwedd.
- Er bod ceirw yn cael eu cydnabod fel problem ar lefel y DU a Chymru, yng Nghymru, mae geifr gwyllt hefyd yn peri problem sylweddol i gyflwr coetiroedd. Mae Grŵp Geifr Eryri wedi bod yn gymharol lwyddiannus wrth fonitro poblogaethau a chydlynu ymdrechion rheoli, fodd bynnag, mae wedi dibynnu ar adnoddau ac ewyllys partneriaid, ac nid yw wedi llwyddo i fonitro effeithiau'n rheolaidd. Er ei bod yn debygol bod poblogaethau fwy neu lai wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd, efallai y bydd angen camau gweithredu wedi'u targedu'n helaethach i fynd i'r afael ag effeithiau mewn rhai cynefinoedd a lleoliadau.

Llygredd

Mae llygredd yn fygythiad i gyfanrwydd coetiroedd sy'n cael ei danbrizio ac yn sbardun newid systemig, gan weithredu ar bob lefel o gemeg pridd i ddeinamig rhywogaethau. Mae natur dameidiog ac ardal ymyl fawr coetiroedd y DU yn cynyddu eu tueddiad i lygredd amgylcheddol, a nodwyd llygredd aer fel pwysau allweddol ar goetiroedd yn adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020. Bydd llygredd hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gymedroli ymateb coetiroedd y DU i effeithiau newid hinsawdd a pha mor agored ydynt i glefydau.

- Er gwaethaf gostyngiadau graddol mewn gormodiant, mae llwythi critigol ar gyfer gormod o asid a maetholion N yn dal i gael eu defnyddio i raddau rhy helaeth ar draws cynefinoedd coetir y DU, gyda'r problemau gwaethaf mewn rhanbarthau amaethyddol dwys fel Gororau Cymru. Mae arwynebedd coetir conifferaidd neu lydanddail gydag asidedd gormodol yn lleihau ar draws pob gwlad yn y DU. Ychydig o newid sydd wedi bod yng ngraddfa dyddodiad maetholion N ar draws mathau cyffredin o goetiroedd ar sail y DU neu ranbarthol ers 2003.
- Yn 2019-2021, roedd crynodiad atmosfferig blynyddol NH₃ yn uwch na lefelau critigol ar gyfer risgiau o effeithiau ar gennau a bryoffytau sensitif ar draws llawer o Gymru, a lefelau critigol ar gyfer effeithiau ar blanhigion fasgwlaidd sensitif mewn rhanbarthau amaethyddol dwys o Gymru gan gynnwys Gororau Cymru a Gorllewin Cymru.
- Ar ben hynny, yn 2019, amcangyfrifir bod mynd y tu hwnt i'r lefel gritigol ar gyfer coed llydanddail ar gyfer O₃ wedi achosi colled gyfartalog o 7.5% mewn cynnydd biomas ar gyfer cynefinoedd coetir llydanddail cymysg a 7.6% ar gyfer cynefinoedd coetiroedd ffawydd yng Nghymru. Mae drifft chwynladdwyr hefyd yn effeithio'n negyddol ar rywogaethau planhigion coetir a gall fod yn achoswr straen hirdymor i goetiroedd mewn rhanbarthau amaethyddol dwys yng Nghymru, tra nad yw effeithiau llygryddion eraill fel mater gronynnol a deunydd o dipio anghyfreithlon yn cael eu deall cystal.

Gwiwerod llwyd

Gall gwiwerod llwyd achosi difrod helaeth i goed trwy dynnu'r rhisgl allanol a llyncu'r meinwe ffloem oddi tano, a gallant effeithio ar nodau creu a rheoli coetiroedd a chyflwr a gwydnwch coetiroedd.

- Mae'r NFI yn dangos tystiolaeth o ddifrod tynnu rhisgl mewn coetiroedd yng Nghymru (11% â difrod). Mewn 26% o adrannau'r NFI a arolygwyd yng Nghymru, mae'n debygol y bydd mwyafrif y coed a ddangosodd arwyddion o dynnu rhisgl yn marw oherwydd difrifoldeb y difrod. Mewn astudiaeth a gynhaliwyd yng Nghoed Lady Park yn Ne-ddwyrain Cymru o 1977 i 2002, cofnodwyd cyfraddau marwolaeth coed sy'n gysylltiedig â gwiwerod rhwng 2.3 a 5.4% y flwyddyn. Mae gan y lefel hon o ddifrod a marwolaeth ganlyniadau i fioamrywiaeth a chynhyrchiant ariannol.
- Ar lefel y DU, amcangyfrifir bod cost uniongyrchol gwiwerod llwyd yn £40.6 miliwn, ac mae Cymru yn cyfrif am £1.1 miliwn o hynny. Yn ôl y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol, mae gwiwerod llwyd yn peri colled economaidd debygol i goedwigaeth o tua £37 miliwn y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr.
- O ganlyniad i gystadleuaeth â gwiwerod llwyd am adnoddau, sy'n cael ei waethygu a'i gyfryngu gan ddeinameg clefydau, mae gwiwerod coch bellach wedi'u lleihau i boblogaethau darniog yng Nghymru. Fodd bynnag, y tu hwnt i'w heffaith negyddol ar boblogaethau gwiwerod coch, nid oes dealltwriaeth dda o effeithiau gwiwerod llwyd ar fioamrywiaeth.



NATIONAL FOREST

Tywydd eithafol

Gyda'r hinsawdd sy'n newid, disgwylir amllder a dwyster cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys tanau, stormydd, sychder a llifogydd. Mae'n debygol y bydd coed a choedwigoedd yn cael eu heffeithio, ac mae angen cynllunio i'w gwneud yn fwy gwydn. Yn wir, mae Trydydd Adroddiad Technegol Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb i Gymru yn adrodd bod 'tirweddau iseldir (coetir a gwlyptiroedd) yn debygol o gael eu heffeithio gan hafau poethach a sychach a choetiroedd ucheldir gan sychder', tra bod tywydd newidiol wedi'i nodi fel pwysau allweddol ar goetiroedd yn adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020.

- Mae Rhagamcanion Hinsawdd y DU 2018 yn dangos bod y tueddiadau newid hinsawdd a ragwelir dros dir ar gyfer yr 21ain ganrif yn dangos mwy o siawns o aeafau cynhesach a gwlypach a hafau poethach a sychach, yn ogystal â chynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. Mae'r rhagamcanion hefyd yn awgrymu erbyn canol y ganrif, y bydd cynnydd o tua 20% mewn glawiad trwm, gyda glawiad cyfartalog tua 5% yn uwch na chyfartaledd 1981–2000.



JOEL GOODMAN/WTML

- Gyda'i gilydd, gallai'r cyfuniad o amllder cynyddol tywydd eithafol a sensitifrwydd coetiroedd i newid hinsawdd, anrhagweladwyedd yr hinsawdd hwn ac amllder difrod gwynt a llifogydd a sychder a thân niweidiol ddod yn fygythiad dirfodol i blanhigfeydd a ffermio awyr agored yng Nghymru. Yn ogystal, gallai newid hinsawdd cronig leihau maint coedwig law dymherus yng Nghymru.
- Er bod data hanesyddol helaeth yn dangos sut mae'r hinsawdd yn newid, nid oes setiau data hirdymor ar effeithiau tywydd eithafol i ddangos a yw'r digwyddiadau hyn yn cynyddu ar hyn o bryd gyda newid hinsawdd ar lefel y DU na Chymru. Ychydig iawn o ddata penodol i Gymru sydd ar gael hefyd sy'n dangos pa mor agored i niwed y gall coetiroedd Cymru fod i newid hinsawdd a thywydd eithafol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae deall y cwestiynau hyn a sut y gall coetiroedd gyfrannu at addasu i'r hinsawdd a thywydd eithafol yn fater allweddol bellach ar gyfer gwydnwch hinsawdd yng Nghymru.

Tarddiad a chyflenwad stoc planhigfeydd

Mae coed a llwyni yn wynebu heriau sylweddol wrth addasu i effeithiau newid hinsawdd gan fod eu hoes hir yn cyfateb i gyfraddau araf o newid poblogaeth ac o ganlyniad i brosesau esblygiadol, ac mae rhagolygon hinsawdd o aeafau gwlypach, hafau sychach, ac amllder uwch o ddigwyddiadau eithafol yn gyffredinol, wedi codi dadl sylweddol ynghylch a oes gan rywogaethau brodorol y DU y gallu i addasu'n naturiol i'r amodau newydd hyn.

- Er y gall arferion rheoli coetir addasol neu drawsnewidiol, fel cymorth llif genynnau a chymorth mudo, chwarae rhan wrth liniaru effeithiau newid hinsawdd, mae tystiolaeth yn dangos, ar gyfer coetiroedd brodorol ag amcanion cadwraeth, y dylid blaenoriaethu arferion rheoli sy'n cefnogi neu'n gwella prosesau naturiol fel adfywio ac yn galluogi coed i harneisio eu potensial esblygiadol i addasu i newid hinsawdd.

Bylchau cyllido a sgiliau

Cefnogir camau gweithredu coed a choetiroedd gan gasgliad cymhleth, hylifol, a thymor byr gan mwyaf o opsiynau ariannu wedi'u targedu'n amrywiol gan gynnwys, yng Nghymru, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, mentrau prosiectau tirwedd, cyllid preifat, incwm o werthiannau pren a grantiau i berchnogion coetiroedd. Mae grantiau'n chwarae rhan hanfodol ac yn parhau i fod y ffordd fwyaf angenrheidiol o gefnogi gwelliant mewn cyflwr coetiroedd. Daeth ymchwil a gomisiynwyd gan Goed Cadw i'r casgliad, er gwaethaf sylw eang, fod marchnadoedd natur yn parhau i fod yn rhan gyfyngedig o'r ateb cyffredinol.

Mae adolygu'r cynlluniau grant presennol ar gyfer coetiroedd yn dangos, er bod cefnogaeth ar gael yn eang i greu coetiroedd newydd, nad yw rheoli ac adfer coetiroedd presennol yn derbyn yr un lefel o gyllid. Mae ehangu mawr ar weithgarwch creu coetiroedd wedi'i gynllunio yng Nghymru a bydd angen sgiliau a gweithlu ychwanegol mewn rheoli tir a'r gadwyn gyflenwi coed.

- Mae Cymru wrthi'n datblygu cynlluniau ariannu newydd. Mae cymorth newydd ar gyfer grantiau amaethgoedwigaeth ar raddfa fach wedi'i gyflwyno'n ddiweddar, tra bod cynllun grant rheoli coetiroedd newydd yn cael ei baratoi i'w gyflwyno ddechrau 2026 ochr yn ochr â Chynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru newydd.
- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gefnogaeth ar gyfer adfer Planhigfeydd ar Safle Coetir Hynafol (PAWS) yng Nghymru, ond mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn deall bod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun newydd a fyddai'n darparu rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer ymyriadau adfer.
- Mae diffyg cefnogaeth hefyd i reoli coetiroedd yng Nghymru. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn cytuno mai'r flaenoriaeth bresennol yw cynnig grant syml sy'n seiliedig ar ddewislen a fydd yn annog perchnogion coetiroedd i gymryd y camau cyntaf i ddod â'u coetiroedd dan reolaeth. Mae angen cyngor a rhywfaint o gefnogaeth ariannol i gymryd y camau cyntaf hyn.
- Mae ymchwil diweddar wedi dangos bod bwlch sylweddol rhwng nifer y bobl sydd eu hangen i gyrraedd targedau plannu a nifer y bobl sy'n ymuno â'r sector, gyda chynnydd o 63-86% ar lefelau gweithlu 2017 sydd eu hangen yng Nghymru a Lloegr erbyn 2030. Mae strategaeth goedwigaeth Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n dod i mewn i'r sector. Mae'r adroddiad 'Sgiliau Drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail) Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru' yn canfod bod potensial sylweddol i greu swyddi ar gyfer 'adferiad gwyrdd' yng Nghymru. Mae'r Fforymau Sgiliau Coedwigaeth wedi bod yn tynnu sylw at yr heriau hyn ers tro byd, er enghraifft yn yr Astudiaeth Sgiliau Coedwigaeth 2017 yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ychydig iawn sydd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

4. Beth sy'n digwydd?

Creu

Ar draws y DU, mae targedau uchelgeisiol a heriol gyda'r bwriad o gynyddu maint coedwigoedd a choed brodorol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a chreu tirweddau sy'n llawn coedwigoedd a choed brodorol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Er bod maint coetiroedd yn cynyddu, mae cyfradd yr ehangu wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd o 1% mewn gorchudd canopi dros y ddau ddegawd diwethaf. Er mwyn cyrraedd targedau sero net ac adfer natur, mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros y diffyg cynnydd hwn.

- Mae cyfraddau creu cyfartalog wedi cynyddu ym mhob gwlad dros y pum mlynedd diwethaf (2020-2024) o'u cymharu â'r adroddiad blaenorol (2016-2020). Cyflawnodd y DU gyfan gyfartaledd o 14,896 ha y flwyddyn, gyda hyn yn rhoi cyfartaledd o 565 ha y flwyddyn yng Nghymru.
- Nid yw cyfraddau plannu yn agos at y cyfartaleddau sydd eu hangen i gyrraedd sero net a gynghorwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, gyda'r diffyg mwyaf i'w weld yng Nghymru (dim ond 11% a gyflawnwyd ar gyfartaledd). Gyda dros 90% o dir yng Nghymru o dan berchnogaeth neu reolaeth ffermio, rhaid i'r cynnydd gofynnol ddigwydd yn bennaf ar dir fferm, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi mwy o orchudd coed drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.
- Fodd bynnag, mae cyfle sylweddol i blannu coed a chreu coetiroedd yng Nghymru. Mae Grŵp Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd Cymru wedi amcangyfrif bod 51% o arwynebedd tir amaethyddol Cymru yn dechnegol addas ar gyfer plannu, a bod modd creu hyd at 80,000ha o goetiroedd newydd trwy blannu o amgylch glannau afonydd.
- Yn aml, mae newid defnydd tir wedi cael ei drin fel mater bioffisegol (addasrwydd tir) neu economaidd, gan gael ei ystyried yn broses ragweladwy a rhesymol, yn hytrach na'r broses gymdeithasol (neu negodi) rhwng grwpiau o bobl â gwerthoedd gwahanol fel y mae'n aml. Dylid ystyried ymgorffori gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol mewn cynlluniau creu coetiroedd yng Nghymru o ddechrau unrhyw brosiect.
- Mae ymchwil wedi awgrymu mai strategaeth defnydd tir gynhwysfawr yw'r polisi pwysicaf i'w flaenoriaethu o ran cyflawni newidiadau defnydd tir. Er iddi gael ei datblygu ar gyfer yr Alban, mae hyn yn brin ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yn benodol y dull hwn o orfodi newid defnydd tir ac wedi buddsoddi mewn dull cyd-ddylunio sylweddol i ddatblygu cynllun cymorth ffermio newydd ac i gyflawni targedau gorchudd coed.

Amaethgoedwigaeth

Gan fod dros 90% o Gymru yn cael ei defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, mae cynyddu cynefinoedd coediog ar dir fferm – wedi'i integreiddio i fusnesau fferm hyfyw – yn cynnig ffordd o gynyddu gorchudd coed yn sylweddol. Mae amaethgoedwigaeth – ffermio gyda choed – yn offeryn hanfodol i helpu i gyflawni amcanion bioamrywiaeth a sero net y DU ar raddfa tirwedd, gan wella gwydnwch economaidd a diogelwch bwyd i'r dyfodol.

Dangoswyd bod amaethgoedwigaeth yn gwella ystod o wasanaethau ecosystem darparu, cefnogi, rheoleiddio a diwylliannol. Gall amaethgoedwigaeth



gynnig sefyllfa lle mae pawb yn ennill mewn llawer o senarios, gan wella bioamrywiaeth a chaniatáu i ffermio liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd, gan gynnal neu wella cynhyrchiant ac incwm. Ond mae datgymhellion mawr yn parhau i atal ffermwyr rhag manteisio ar amaethgoedwigaeth yn eang, yn enwedig diffyg cefnogaeth ariannol a gwybodaeth dechnegol. Mae angen mwy o eglurder ac integreiddio tystiolaeth ym mholisi'r llywodraeth hefyd.

Yn 2023, argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd y dylid plannu coed ar 5% o dir fferm yng Nghymru erbyn 2035 ac y dylid ymestyn gwrychoedd 20% erbyn 2035, gan dynnu sylw ymhellach at yr angen am Gynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n ymgorffori amaethgoedwigaeth.

Ymyriadau rheoli i wella cyflwr ecolegol

Coetiroedd mewn cyflwr da o ganlyniad i reolaeth wedi'i gynllunio a gweithredol sy'n debygol o wneud y cyfraniad mwyaf at ddarparu gwasanaethau ecosystemau a bod yn fwy gwydn i fygythiadau allanol, ond mae'r llw o fuddion y gellir eu hennill o reoli coetiroedd yn briodol yn gofyn am gefnogaeth a chymhellion sy'n caniatáu i berchnogion tir wireddu a chyflawni'r buddion hyn.

- Nid yw peidio ag ymyrryd o reidrwydd yn gwella cyflwr ecolegol. Ym 1944, yng Nghoedwig Lady Park yn Sir Fynwy, sefydlwyd dull peidio ag ymyrryd i ddeall beth fyddai'n digwydd i ardal fach o goetir hynafol a adawyd heb ymyrraeth. Mae'r coetir yn cynnig astudiaeth achos dda sy'n dangos y gall diffyg rheolaeth ragweithiol gael effeithiau negyddol ar gyflwr ecolegol, gan fod y safle wedi gweld gostyngiad yn amrywiaeth rhywogaethau dros yr amser hwn, ac mae'r warchodfa wedi'i graddio fel 'un 'anffafriol, sy'n dirywio o ran cyflwr.
- Mae nifer a maint coetiroedd y DU sydd dan reolaeth yn anodd eu canfod oherwydd diffyg data, fodd bynnag, defnyddir ffigurau ar gyfer ardaloedd coetiroedd ardystiedig yn aml fel dangosydd o reoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Mae coetiroedd ardystiedig yn y DU wedi cael eu harchwilio'n annibynnol yn erbyn Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS). Yn 2024, cyfanswm arwynebedd y coetiroedd ardystiedig yn y DU oedd 1.44 miliwn hectar (44% o gyfanswm arwynebedd coetiroedd y DU). Mae hyn yn 48% yng Nghymru, er ei bod yn bwysig nodi bod y ffigurau hyn yn ymwneud â phob coetir yn y DU, a gall y rhan fwyaf o'r coetiroedd ardystiedig fod yn goedwigoedd conwydd cynhyrchiol. Gall coetiroedd nad ydynt wedi'u hardystio gael eu rheoli'n gynaliadwy hefyd.
- Yn ddiweddar, mae'r Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol wedi adrodd bod y rhan fwyaf o goetiroedd heb eu rheoli yn goed llydanddail ac mewn perchnogaeth breifat ac wedi amcangyfrif bod yr arwynebedd o goetiroedd heb eu rheoli y gellid yn ymarferol eu dwyn yn ôl i reolaeth ragweithiol (yn gorfforol ac yn economaidd) hyd at 53,000ha yng Nghymru. Fodd bynnag, mae grantiau'r llywodraeth wedi dod yn fwyfwy anatyniadol, cyfyngol ac anffafriol i gefnogi rheolaeth gynaliadwy o goetiroedd. Mae adroddiadau SoNaRR Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos bod tuedd ar i lawr wedi bod mewn coetiroedd dan reolaeth yng Nghymru, sy'n bennaf oherwydd i gynllun Rheoli Coetiroedd Glastir Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2016.
- Mae dod â mwy o goedwigoedd a choed dan reolaeth weithredol yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer adfer natur. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn nodi bod ffermwyr yn ddarostyngedig i ofynion cynnal a chadw coetir penodol a gall ddarparu cyfle i wneud hyn ar raddfa fawr.



MARK ZYTYSKI/WTDL

Adfer coetiroedd hynafol

Mae coetiroedd hynafol, yn ôl y diffiniad, wedi datblygu dros ganrifoedd ac maen nhw'n hysbys fel un o gynefinoedd daearol cyfoethocaf a mwyaf cymhleth y DU. Mae gan y coetiroedd hyn bresenoldeb hir, di-dor (dilyniant) ac felly maen nhw'n aml yn gysylltiedig â bioamrywiaeth uchel a chyfeirir atynt fel rhai na ellir eu disodli; ni ellir eu creu. Maen nhw hefyd yn storfeydd carbon sylweddol ac mae ganddynt werth diwylliannol a hanesyddol aruthrol.

Mae coetiroedd hynafol yn brin, gan gyfrif am tua 4.6% o gyfanswm gorchudd tir Cymru. Mae hyn oherwydd eu bod wedi wynebu cyfres o fygythiadau hanesyddol a chyfredol, gan gynnwys plannu coed ungnwd dros y safleoedd (PAWS) yn hanesyddol, datblygu a defnydd tir dwys o'u cwmpas. Yn ogystal â'u rhannu a lleihau eu maint, mae'r bygythiadau hyn hefyd wedi effeithio ar eu cyflwr, eu gwydnwch dilynol i'r bygythiadau hyn a'u gallu i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r angen i adfer coetiroedd hynafol yn fwy argyfyngus nag erioed gan fod hwn yn bwynt unigryw mewn amser. Mae'r rhan fwyaf o PAWS bellach ar yr oedran, neu y tu hwnt i'r oedran, pan fyddant yn cael eu torri a'u dyfodol wedi'i benderfynu. Gallai'r dyfodol hwn eu bod naill ai'n cael eu llwyrddorri a'u disodli â phlanhigfa gonwydd estron arall neu ddechrau'r broses adfer i helpu i wella eu cyflwr a'u gweithrediad ecolegol.

- Mae tua 95,000 hectar o goetir hynafol yng Nghymru, sy'n cynnwys bron i 30% o'r holl goetir. Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd hynafol a brodorol yn gynefinoedd coetir blaenoriaethol yng Nghymru ac maen nhw'n destun gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i gynefinoedd blaenoriaethol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r diffiniadau'n cyd-fynd yn union ac yn eu ffurf bresennol, ni fydd PAWS yn gymwys fel cynefin blaenoriaethol gan fod cynefinoedd coetir blaenoriaethol yng Nghymru wedi'u diffinio ar sail lled-naturioldeb, nid ar hynafiaeth, ac felly maent yn

eithrio PAWS i raddau helaeth. Mae coetiroedd hynafol yng Nghymru hefyd yn destun amrywiol ofynion o ran rheoli coetiroedd cynaliadwy ac maent yn ystyriaeth berthnasol mewn amrywiol bolisiau cynllunio a datblygu.

- Bydd trosi PAWS yn ôl yn goetiroedd brodorol yn helpu i adfer swyddogaeth ecolegol y cynefinoedd hyn ac yn caniatáu i fioamrywiaeth gynyddu. Yng Nghymru ar hyn o bryd mae 25,710ha o PAWS, sy'n cynnwys 1.24% o gyfanswm y gorchudd tir.
- Mae deall cyflwr coetiroedd hynafol a safleoedd PAWS yn allweddol i adferiad llwyddiannus. Yn 2012, aseswyd cyflwr yr holl 19,500ha (amcan) o goetiroedd hynafol ar yr ystâd goedwigoedd gyhoeddus yng Nghymru gan ddefnyddio cyfuniad o samplu yn y maes a dadansoddiadau desg o fygythiadau a photensial ecolegol. O hyn, ystyriwyd bod 34% yn ddiogel, 36% dan fygythiad a 30% yn gritigol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cynnal asesiad cyflwr coetiroedd hynafol llawn yn 2025. Fel rhan o'r ailasesiad hwn, mae'n bwysig bod ystadegau cyfredol ar faint o PAWS yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i adfer ar hyn o bryd yn cael eu cofnodi, er mwyn caniatáu olrhain cynnydd tuag at adfer natur.
- Yn ogystal, mae tua 3,250ha o'r PAWS yn cynnwys llarwydd, ac mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu torri i lawr yn y dyfodol oherwydd haint â'r pathogen *Phytophthora ramorum*. Gall yr ardaloedd hyn ddarparu cyfle i adfer natur ar raddfa fawr yng Nghymru.

Rheoli llifogydd naturiol

Mae rhagolygon hinsawdd diweddaraf y Swyddfa Dywydd yn rhagweld y bydd y DU yn profi gaeafau cynhesach a gwlypach a hafau poethach a sychach dros y ganrif nesaf, ochr yn ochr â chynnydd yn amllder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu'r risg o lifogydd ledled y DU fel sydd wedi bod yn amlwg yn amllder digwyddiadau llifogydd dros y degawd blaenorol.

Gall creu coetiroedd (dalgylchoedd, croes-lethrau, gorlifdiroedd a glannau afonydd) ochr yn ochr â gorchudd coed integredig wedi'i dargedu gydag ymyriadau rheoli llifogydd naturiol eraill (e.e. gwlyptiroedd, pantiau) fod yn ymyrraeth rheoli llifogydd naturiol effeithiol a all ddarparu gwasanaethau rheoleiddio llifogydd sylweddol i gymunedau i lawr yr afon, ochr yn ochr â dal a storio carbon, adfer natur ac amcanion gwasanaeth ecosystem eraill.

- Lansiwyd Rhaglen Sbarduno Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023, a bydd yn gweld £4.6 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi mewn cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol ledled Cymru yn cwmpasu 23 o brosiectau wedi'u gwasgaru ar draws wyth ardal awdurdod lleol gwahanol.
- Mae safleoedd astudio yng Nghymru wedi cyfrannu at y wybodaeth gyfredol am fanteision posibl NFM. Mae astudiaethau dalgylchoedd paru nodedig, fel dalgyrch Pumlumon yng nghanolbarth Cymru, wedi archwilio effaith coedwigaeth planhigfeydd ar gynnyrch dŵr (faint o ddŵr sy'n rhedeg oddi ar y tir i gyrsiau dŵr) dros sawl degawd. Mae'r astudiaethau hyn wedi bod yn hanfodol wrth lywio'r ddealltwriaeth gyfredol o hydroleg coedwigoedd a defnydd dŵr ar ddalgylchoedd graddfa fawr, ac wedi darparu tystiolaeth gref y gall coedwigo leihau cynnyrch dŵr ac felly leihau cyfraddau brig llif mewn cyrsiau dŵr.

5. Gofynion polisi



N S PUGH

Yn seiliedig ar y dystiolaeth ar y tudalennau blaenorol, er mwyn gwella cyflwr ecolegol ei choed a'i choedwigoedd brodorol, er mwyn dod â manteision i gymunedau a'r economi a chyflawni ymrwymïadau rhwngwladol i warchod ac adfer bioamrywiaeth, mae angen i Gymru:

Gwella a gwarchod coedwigoedd a choed presennol

1. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar ddatblygu economi coetiroedd a fydd yn gwella cyflwr coetiroedd ym mhob rhan o Gymru.

Pam: Nid yw mwyafrif coetiroedd Cymru mewn cyflwr da, ac mae bywyd gwyllt, cynhyrchiant a storfeydd carbon coetiroedd dan fygythiad. Mae coed trefol hefyd wedi'u dosbarthu'n anghymesur ar draws cymunedau.

Sut: • Gwella amddiffyniad a chyflwr coetiroedd a chynefinoedd sy'n gyfoethog o ran natur ar yr ystâd goedwigoedd gyhoeddus a Choedwig Genedlaethol Cymru drwy eu hamddiffyn a'u rheoli ar gyfer cadwraeth, bodloni gofynion targedau 30 erbyn 30 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, a sicrhau bod y stociau carbon sylweddol mewn coetiroedd aeddfed yn cael eu gwerthfawrogi a'u hamddiffyn yn y tymor hir.

- Paratoi ar gyfer y gweithgarwch cynyddol sydd ei angen i gyrraedd targedau adfer natur, addasu i argyfwng hinsawdd a gorchudd coed, a'r cyfleoedd masnachol a'r galw cynyddol y bydd hyn yn eu creu mewn cadwyni cyflenwi. Canolbwyntio ar fylchau sgiliau a chapasiti ym maes coed mewn ffermio, creu coetiroedd a dylunio cynlluniau amaethgoedwigaeth, cyfranogiad cymunedol, a datblygu Gwasanaeth Natur Cymru ochr yn ochr â planhigfeydd coed cymunedol.
- Cefnogi partneriaeth coedwigoedd glaw Cymru drwy gymhwyso polisi, deddfwriaeth, cyllid a chaffael pren i gynyddu cyflymder adnewyddu ac adfer coetiroedd hynafol, yn enwedig y rhai a droswyd yn blanhigfeydd conwydd.
- Darparu cyllid grant i berchnogion coetiroedd preifat ar gyfer ymyriadau a fydd yn gwella cyflwr ecolegol.
- Cefnogi cynlluniau plannu trefol i fynd i'r afael â chydnerthedd cymunedol gan ddefnyddio'r Offeryn Ecwiti Coed i helpu i flaenoriaethu ardaloedd ar gyfer gwariant.

2. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer coed hynaf a phwysicaf Cymru.

Pam: Mae treftadaeth ddiwylliannol a bywyd gwyllt yn cael ei hesgeuluso.

Sut: • Cefnogi datblygiad a dadansoddiad pellach o'r Rhestr Coed Hynafol.

- Darparu amddiffyniad polisi cynllunio cryf a chyson ar gyfer hen goed, a chefnogi ei weithrediad.
- Ymgorffori cydnabyddiaeth, gwarchodaeth a chefnogaeth i ofalu am goed hynafol ym mhob agwedd ar bolisi rheoli tir.
- Darparu mwy o gymorth cynghori ac ariannol i reolwyr tir a ffermwyr i ofalu am goed hynafol a hen goed, ac ymyrryd i achub coed a gwrychoedd hynafol sydd mewn perygl.

3. Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr ac awdurdodau cynllunio i fonitro a rheoleiddio llygredd yn effeithiol er mwyn gorfodi safonau rheoleiddio.

Pam: Mae coedwigoedd, coed ac afonydd, a'r bioamrywiaeth maen nhw'n ei chynnal, yn dioddef; yn enwedig o ffynonellau cronol o lygredd nitrogen.

Sut: • Cadarnhau safonau gofynnol rheoleiddiol ar gyfer allyriadau llygredd.

- Mynd i'r afael â methiannau awdurdodau rheoleiddio a chynllunio i fodloni a gorfodi gofynion rheoleiddio presennol.
- Sicrhau cyllidebau digonol ar gyfer monitro, rheoleiddio a lliniaru.
- Cynhyrchu strategaeth a chynllun i gyflawni targed 7 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang: lleihau llygredd i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth.

Ehangu a chysylltu coetir a gorchudd coed

4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith o greu coetiroedd newydd i fwy na 10,500ha y flwyddyn erbyn 2035

Pam: Mae'r hinsawdd sy'n newid yn gwneud patrymau tywydd yn fwy anrhagweladwy nag a brofwyd mewn sawl cenhedlaeth. Mae modelu'n awgrymu y bydd Cymru'n profi cyflymu o ran difrifoldeb ac amllder digwyddiadau tywydd eithafol fel stormydd, llifogydd, sychder a thanau gwyllt yn y dyfodol. Mae angen gweithredu ar y cyd i sicrhau bod y gwaethaf o'r proffwydoliaethau hyn yn cael eu lliniaru a bod effeithiau ar bobl, cynefinoedd, cynhyrchu bwyd a gweithgaredd economaidd arall sy'n seiliedig ar y tir yn gyfyngedig. Mae'n wybyddus bod cynyddu plannu coed wedi'i dargedu a gorchudd coetir yn fecanwaith allweddol i helpu i liniaru'r effeithiau hyn.

Sut: • Cadarnhau ymrwymiad i gynllun cyflawni i wireddu argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd i gyflawni gorchudd coetir o 24% erbyn 2050, gan gyflymu'r gwaith o greu coetiroedd newydd bob blwyddyn, gan gynnwys mwy o wladychu naturiol, i ragori ar 10,500 hectar y flwyddyn erbyn 2035, gyda chynlluniau cyflawni, targedau a cherrig milltir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Strategaeth Goetiroedd a strategaeth coed a choetiroedd awdurdodau lleol.

- Adolygu gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori, cymeradwyo ac olrhain creu coetiroedd, yn enwedig i annog amaethgoedwigaeth a chytrefu naturiol, ac i wella tryloywder cyhoeddus, dylunio cynlluniau plannu

amlswyddogaethol a galluogi cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y galw am blanhigfeydd coed.

- Gwella monitro gwyliadwriaeth ar gyfer bygythiadau newydd fel ceirw a phlâu a chlefydau newydd.
- Rhoi cymhellion i goed a dyfir yn lleol drwy gaffael cyhoeddus drwy fuddsoddi mewn planhigfeydd coed masnachol, awdurdodau lleol a chymunedol yn awr. Bydd hyn yn galluogi ehangu coed a dyfir yn y DU ac Iwerddon (UKISG) yn gyflym – er mwyn lleihau'r risg o fewnforio clefydau coed a gwella bioddiogelwch.

5. Dylai llywodraethau ledled y DU gynnal gwyliadwriaeth a rheolaeth ar blâu a phathogenau coed a pharatoi'r ffordd ar gyfer hunangynhaliath o ran cyflenwad coed

Pam: Mae plâu a phathogenau coed a fewnforir yn arwain at golledion uniongyrchol o goed a allai wneud targedau gorchudd coed y llywodraeth yn amhosibl eu cyflawni. Mae hybu cynhyrchu coed domestig yn hanfodol ar gyfer bioddiogelwch, ond mae hefyd yn cynnig manteision fel tyfu'r sector gwyrdd, gan ddarparu swyddi gwledig a bod o fudd i economïau gwledig.

Sut: • Parhau â'r rhwydwaith helaeth presennol ar gyfer gwyliadwriaeth drawsffiniol o blâu a phathogenau, a chymryd rhan ym mhrosiect Observatree.

- Datblygu cynllun gweithredu i gefnogi sector cynhyrchu coed Prydain; mae angen i hyn fod ar draws y genedl, dan arweiniad tîm sy'n cynnwys Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.
- Darparu cefnogaeth a chyllid hirdymor ar gyfer datblygu Planhigfeydd Coed Cymunedol fel Prosiect Communitree, a chynnwys UKISG mewn unrhyw ofynion caffael bioddiogel, er mwyn sicrhau y gall y planhigfeydd pwysig hyn barhau i ffynnu.
- Yn ogystal, dylai llywodraeth Cymru adolygu effaith Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (SPHNau) ar gyflwr ecolegol Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol (PAWS), a sicrhau bod amodau torri coed a chynghor rheoli yn amddiffyn nodweddion coetiroedd hynafol ac yn gwella cyflwr ecolegol.

Gwella'r dystiolaeth

Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a chasglu data i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth yng *Nghyflwr Coedwigoedd a Choed y DU 2025*. Byddai hyn yn sicrhau bod ymdrechion cadwraeth ac adfer yn cael eu targedu'n effeithiol, gan wneud y mwyaf o'u heffaith a sicrhau gwydnwch hirdymor coetiroedd yng Nghymru.

6. Dylai llywodraethau a thirfeddianwyr fonitro a rheoli effaith ceirw ar goetiroedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes

Pam: Mae niferoedd cynyddol ceirw yn rhwystr mawr i greu a rheoli coetiroedd ar draws rhannau o Gymru, a gall ddod yn rhwystr mawr ledled y wlad os na chaiff ei ddatrys.

Sut: • Sicrhau cydlynu trawsffiniol ar oruchwylio poblogaethau ceirw yng Nghymru yn effeithiol.

- Darparu cefnogaeth i grwpiau rheoli rhanbarthol cydweithredol, dan arweiniad rheolaeth ragorol ar yr ystâd goedwigoedd gyhoeddus.

7. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil sy'n anelu at benderfynu ar effaith gwiwerod llwyd ar fioamrywiaeth ehangach yng Nghymru.

Pam: Mae Cymru'n profi amllder uchel o ddifrod i goed a achosir gan wiwerod llwyd o'i gymharu â gweddill y DU, gyda goblygiadau pwysig ar gyfer amcanion cadwraeth a chynhyrchiant coetiroedd, ond y tu hwnt i'w heffaith negyddol ar boblogaethau gwiwerod coch, nid oes dealltwriaeth dda o effeithiau gwiwerod llwyd ar fioamrywiaeth. Bydd deall yr effaith hon yn caniatáu gweithredu cadwraeth wedi'i dargedu'n well wrth reoli coetiroedd.

Sut: Darparu cefnogaeth a chymhelltiant i ymchwil i effeithiau gwiwerod llwyd yn tynnu rhisgl ar fioamrywiaeth coetiroedd ehangach yng Nghymru.

8. Dylai llywodraeth Cymru gefnogi ymchwil sy'n anelu at benderfynu ar effeithiau tywydd eithafol ar goedwigoedd a choed Cymru.

Pam: Mae'n debygol y bydd coedwigoedd a choed yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan hinsawdd sy'n newid a chynnydd yn amllder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Mae deall beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer amcanion cadwraeth, gan gynnwys amddiffyn coedwigoedd glaw tymherus ac ehangu gorchudd coed coetir ar ffermydd, yn hanfodol.

Sut: Darparu cefnogaeth a chymhelltiant i ymchwil i wydnwch coetiroedd i dywydd eithafol yng Nghymru.

Buddsoddi yn y dyfodol

9. Dylid arfer integreiddio a chydweithio clir ac effeithiol ar lefel strategol wrth ddatblygu seilwaith gwyrdd, lles a strategaethau economaidd er mwyn sicrhau bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu normaleiddio ar draws meysydd polisi.

Pam: Mae tystiolaeth yn dangos bod mynediad at ofod gwyrdd o ansawdd uchel yn darparu manteision hirdymor iechyd, lles, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd ymgorffori dulliau cydweithredol o gynllunio seilwaith gwyrdd trwy gyrff gwneud penderfyniadau rhanbarthol presennol fel pwyllgorau ar y cyd corfforaethol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, yn sicrhau bod mwy o gyrff cyhoeddus (ym mhob sector) yn gallu defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur yn eu darpariaeth gwasanaethau o ddydd i ddydd.

Sut: • Mabwysiadu Safonau Mannau Gwyrdd a hyrwyddo mannau gwyrdd hygyrch i'r cyhoedd a chyfoethog o ran bywyd gwyllt, gan gynnwys ar gyfer datblygiadau newydd, er mwyn ymestyn mannau gwyrdd o ansawdd uchel a hygyrch, yn enwedig ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

- Cynyddu gorchudd coed i 20% yn ardaloedd trefol Cymru, gan flaenoriaethu ardaloedd lle mae data yn dangos bod lles trigolion dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at fannau gwyrdd o safon ac amgylcheddau cyfoethog o goed.
- Strategaeth coed a choetiroedd fel elfen annatod o ddatblygu strategaeth seilwaith gwyrdd, wedi'i hategu gan ddata Ecwiti Coed ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Ymgorffori ehangu gorchudd canopi fel ymyrraeth allweddol ar draws sawl maes polisi, gan greu lleoedd o ansawdd uchel, iach a gwydn o ran hinsawdd.

6. Beth mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn ei wneud?



PHILIP FORMBY/WTML

Adfer coetir hynafol yng Nghoed Gwent

Mae Coed Gwent yn rhan o'r bloc mwyaf o goetir hynafol yng Nghymru ac mae'n weddillion o'r goedwig barhaus a oedd unwaith yn ymestyn o Afon Wysg i Afon Gwy. Prynodd Coed Cadw (The Woodland Trust) ran o Goed Gwent yn 2006 ac ers hynny mae wedi teneuo'r conwydd i adfer y coetir hynafol, y rhostir a'r borfa goediog, a gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Fodd bynnag, mae ymdrechion adfer ar y safle dan fygythiad gan bresenoldeb *Phytophthora ramorum*, gan fod llwyrddorri yn aml yn cael ei ragnodi fel y driniaeth briodol mewn Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol.

Yn anffodus, oherwydd *P. ramorum* a'r SPHNau cysylltiedig, nid yw teneuo llarwydd yn raddol o'r coetir hwn, gan ddangos arfer gorau adfer PAWS, yn opsiwn mwyach. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Coed Gwent wedi cael cyfres o SPHNau, ac mae hyn wedi arwain at gwympo dros 146 hectar o goetir llarwydd yn bennaf, sef 41% o'r coetir. Roedd un SPHN yn unig yn golygu bod angen torri 60 hectar, yn aml ar gyfnodau byr iawn i atal sborynu a lledaenu'r pathogen yn yr hydref. Cyflwynodd y newid graddfa fawr aflonyddgar hwn heriau i'r coetir o ran sicrhau ei fod yn parhau i gael ei adfer yn goetir lled-naturiol hynafol.

Adfer coedwig law dymherus yng Nghoed Felenrhyd a Llennyrch

Mae Coed Felenrhyd a Llennyrch yn goetir derw lwerydd prin ac yn un o goedwigoedd mwyaf Coed Cadw (The Woodland Trust). Saif uwchben Dyffryn Ffestiniog ac mae wedi'i amgylchynu gan raeadrau dramatig Afon Prysor ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Ynghyd â choetiroedd eraill gerllaw, mae'n un o'r enghreifftiau gorau sy'n weddill o goetir derw lwerydd yn Ewrop, ac yn weddillion o'r coetiroedd helaeth a oedd unwaith yn ymestyn o ogledd yr Alban i Bortiwgal.

Ar waelod Llennyrch mae Ceunant Llennyrch a cheunant Afon Prysor, sy'n darparu amgylchedd llaith lle mae casgliadau prin o bryoffytâu a chen wedi llwyddo i lynu er gwaethaf eu colli o'r dirwedd ehangach.

Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) wedi bod yn rheoli'r safle ers dros 25 mlynedd. Fel cynifer o rai eraill o amgylch Cymru, mae'n goetir hynafol lle mae rhywogaethau conwydd anfrodorol wedi'u plannu. Trwy gael gwared ar y conwydd hyn yn ofalus, mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn adfer ardaloedd o'r coetir hwn yn raddol o leoedd tywyll, cysgodol lle mae fflora brodorol yn ei chael hi'n anodd i ffynnu, i fod yn gydrannau o ecosystem coedwig law dymherus ffyniannus mewn cyflwr ecolegol da.

Creu coetir yn Fferm Brynau

Fferm Brynau yw prosiect creu coetir mwyaf Coed Cadw (The Woodland Trust) hyd yma. Wedi'i lleoli yng Nghastell-nedd yng Nghymoedd De Cymru, mae'r dirwedd anghofiedig hon bellach yn cael ei hadfer yn warchodfa i natur. Mae caeau diffaith wedi'u trawsnewid yn goetir ifanc bywiog ac mae gwaith adfer pwysig wedi'i wneud yn y goedwig hynafol, tra bod tynnu draeniau tanddaearol i ddod â dŵr yn ôl i'r wyneb a chreu cloddiau pridd ac argaeau sy'n gollwng wedi adfer gallu naturiol llethr y bryn i storio ac arafu llif dŵr dros dro.

Mae'r safle'n rhan o [Goedwig Genedlaethol Cymru](#), ac mae Cefn Morfudd, a brynwyd yn ddiweddar, wedi mwy na dyblu ei faint, gan roi'r cyfle i adfer amrywiaeth o gynefinoedd, o ddolydd blodau gwyllt lliwgar i rostiroedd wedi'i orchuddio â grug ac eithin. Drwy adfer mawndir, rhostiroedd a phocedi o goetiroedd hynafol yn ofalus, mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd, puro'r awyr a lleddfu llifogydd yn y dref islaw.

Mae Coed Cadw hefyd yn partneru â sefydliadau ymchwil ar y safle i sicrhau bod ystod o ymyriadau rheoli yn cael eu monitro am eu heffeithiolrwydd a'u manteision amgylcheddol ehangach. Bydd y data hwn yn helpu i ddarparu cefnogaeth ar gyfer mabwysiadu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy yn ehangach yn y dyfodol, a llenwi rhai o'r bylchau a nodwyd mewn setiau data ehangach.

Cymorth ac arweiniad amaethgoedwigaeth

Drwy MOREwoods a chynlluniau grantiau bach eraill, mae Coed Cadw (The Woodland Trust) wedi gallu cefnogi tirfeddianwyr a ffermwyr i ddefnyddio plannu coed a chreu gwrychoedd fel rhan o hyfywedd a chynhyrchiant eu busnesau fferm yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi ystod eang o systemau fferm gwahanol i ddatgloi gwerth coed a gwrychoedd a gwella eu gwydnwch amgylcheddol ac economaidd yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn ymestyn ar draws yr holl waith y mae Coed Cadw yn ei wneud yng Nghymru – o gyngor a chefnogaeth ar y fferm, cefnogaeth grantiau bach ar gyfer plannu

ar y fferm, i eiriol dros well cefnogaeth i ffermwyr i ddefnyddio coed o fewn eu systemau fferm yn llwyddiannus.

Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) wedi cefnogi ffermwyr sy'n gweithio o fewn ystod o fodelau busnes fferm amrywiol gan gynnwys Ffermio Mynydd traddodiadol Cymru. Mae Geraint Davies, ffermwr defaid a chig eidion ucheldir sydd â thir wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, wedi gweithio gyda Coed Cadw i blannu miloedd o goed ar ei fferm ar ffurf gwrychoedd newydd, cysgodi glannau afonydd ar hyd cyrsiau dŵr, a rheolaeth weithredol o'r Ffridd (coed cae), gan gynyddu gallu'r tir i ddal dŵr a gwella cynhyrchiant pridd.

Gweithio gyda chymunedau i gefnogi iechyd a lles

Mae Cronfa Argyfwng y Coed wedi darparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol yng Nghaerdydd a Wrecsam i leihau rhwystrau i weithredu eu strategaethau coed a choetiroedd, gan gynnwys hwyluso cynnydd mewn plannu coed ar gyfer iechyd a lles a datblygu cymunedol. Mae prosiect Cysylltiadau Coetiroedd Wrecsam wedi galluogi datblygiad Partneriaeth Coedwig Wrecsam, cydweithrediad dan arweiniad gweledigaeth o gyrff statudol a chyrff anllywodraethol sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cymunedau ledled Wrecsam yn cydnabod ac yn dathlu eu treftadaeth goed. I wneud hyn, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn weithredol i greu tirwedd gysylltiedig lle mae coed, hen a newydd, wrth wraidd bywydau pobl a'u hymdeimlad o le. Mae eu gwaith yn cymryd golwg gyfannol ar arwyddocâd coed i fywydau pobl gan sicrhau dull dathlu o warchod a gwella tirwedd coed ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r arian gan Goed Cadw wedi helpu i gefnogi datblygiad Wythnos Cysylltiadau Coetiroedd flynyddol, sy'n darparu dathliad wythnos o hyd o fudd cynhenid coed trwy ystod o weithgareddau, digwyddiadau, teithiau cerdded a sgysiau. Nawr yn ei thrydedd flwyddyn, ei thema bob blwyddyn yw archwilio gwahanol gysylltiadau cymdeithasol-ddiwyllynnol sydd gan bobl â choed, gan gynnwys Mae Coed yn Bwysig a Cheisio Noddfa. Eleni, bydd yr wythnos yn edrych ar y cysylltiad dwfn sydd gan ddynoliaeth â choed o dan y thema 'gwreiddiau a phopeth'.

Planhigfeydd coed cymunedol– Llais y Goedwig

Ers 2020, mae Coed Cadw (The Woodland Trust) wedi bod yn gweithio mewn cydweithrediad â Llais y Goedwig i gyflawni'r prosiect CommuniTree a ariennir trwy bartneriaeth rhwng Coed Cadw (The Woodland Trust) â Loteri Cod Post y Bobl.

Nod prosiect CommuniTree yw helpu i greu, amddiffyn ac adfer coetiroedd brodorol trwy sesiynau hyfforddi a rhwydweithio a gynlluniwyd i gefnogi planhigfeydd newydd a phresennol, i ddatblygu'r sgiliau a'r gallu i dyfu'r coed sydd eu hangen ar gyfer coetiroedd y dyfodol, a datblygu cyfres o adnoddau i helpu i lywio gofynion rheoleiddio.